Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU | THE BUSINESS OF RECYCLING WALES | WRAP CYMRU

Astudiaeth achos Ailgylchu yn y Gweithle: lletygarwch

# Gwesty Mercure Abertawe

## Cefndir

Mae Gwesty Mercure Abertawe'n rhan o deulu Accor/IHG o westai gyda 120 o ystafelloedd gwely a 9 ystafell gyfarfod. Mae gan y gwesty ardystiad 'Allwedd Gwyrdd' – safon flaenllaw ar gyfer rhagoriaeth ym maes cyfrifoldeb amgylcheddol a gweithrediad cynaliadwy o fewn y diwydiant twristiaeth – a weinyddir gan Cadwch Gymru'n Daclus. Mae hyn wedi arwain at fabwysiadu amrywiol fesurau ymarferol ar y safle i leihau'r defnydd o ynni a dŵr, gwella effeithlonrwydd adnoddau.

Darlun: Gwesty Mercure Abertawe

# Rhoi ailgylchu yn y gweithle ar waith

Gan weithio gyda Veolia fel y darparwr gwasanaeth casglu a gontractiwyd ar lefel gorfforaethol, mae gan dîm y gwesty ymreolaeth i ddatblygu atebion gwastraff ac ailgylchu sy'n gweithio i'r safle. Mae datrysiadau ailgylchu yn parhau i esblygu dros amser, gan gynnwys y bwriad i fabwysiadu 4 set o finiau wedi'u rhannu ar gyfer yr ardaloedd allanol.

> “Y gyfrinach i ymateb yn llwyddiannus i'r gyfraith ailgylchu yn y gweithle yw ymglymiad cynnar a pharhaus yr holl staff. Defnyddir cyfarfodydd tîm rheolaidd i adrodd yn ôl ar heriau trwy Benaethiaid Adrannau a gwahodd atebion. Mae newidiadau wedi'u gwneud ar draws y safle, gan adeiladu ar y gwaith cadarnhaol presennol a wnaed drwy achrediad Goriad Gwyrdd.”
>
> Ian Harding-Jones, Rheolwr Cyffredinol

Darlun: Gorsaf finiau yn y gegin

Mae'r ddogfen hon yn eiddo i WRAP ac ni cheir ei hatgynhyrchu na'i hailddefnyddio heb ganiatâd.

# Ymateb i’r gyfraith ailgylchu yn y gweithle

Cyn y newid yn y gyfraith casglwyd y ffrydiau canlynol ar wahân: gwastraff cyffredinol, cardbord, gwydr a gwastraff bwyd. Mae'r gwesty bellach wedi gwahanu ei wastraff yn llwyr yn unol â'r gyfraith ac wedi rhoi mwy o bwyslais ar wastraff bwyd. Mae staff tiroedd a chynnal a chadw yn gwneud gwaith didoli eilaidd o ddeunyddiau i leihau lefelau halogi.

**Gwahanu ailgylchu yn y ffynhonnell**
Mae tîm y gwesty yn parhau i edrych ar opsiynau i'w gwneud hi'n hawdd i westeion ailgylchu yn eu hystafelloedd gwely. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau lle yn cyfyngu ar nifer a math y biniau y gellir eu defnyddio. Yn y cyfamser, mae mwy o ddibyniaeth ar staff i wahanu yn y ffynhonnell, gan ddefnyddio trolïau cadw tŷ wedi'u haddasu gyda sachau clir ar gyfer ailgylchu.



Darlun: Troli cadw tŷ gyda deunyddiau a gasglwyd ar wahân

**Monitro lefelau gwastraff bwyd**
Mae gwastraff bwyd yn cael ei bwyso'n ddyddiol gan y cogydd, gan gynnwys yr holl wastraff sy'n dod yn ôl o blatiau cwsmeriaid, cynnyrch wedi'i ddifetha ac wedi mynd heibio’i ddyddiad, holl grwyn / torion a bagiau te. Unwaith y bydd gwerth blwyddyn o ddata ar gael, bydd targedau gwella blynyddol yn cael eu gosod, e.e. targedu gostyngiad o 10% flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Darlun: Arwyddion yn y bwffe brecwast

**Lleihau gwastraff bwyd cwsmeriaid**
Mae bwffe brecwast yn gweithredu tan 10am bob dydd. O 9am (wrth i bethau fynd yn dawelach) bydd staff yn rhoi'r gorau i ailgyflenwi'r bwffe a choginio er mwyn lleihau gwastraff. Rhoddir gwybodaeth ac arweiniad i breswylwyr wrth iddynt ddod i mewn i'r ardal fwyta, gan ddarparu gwybodaeth a negeseuon am wastraff bwyd.

# Mentrau cyfredol

Ardaloedd y gwesteion sy'n peri'r her fwyaf. Er mwyn cadw ardaloedd y tu allan yn lân ac yn daclus, darperir digon o finiau ar draws y maes parcio helaeth, gan gynnwys biniau ailgylchu ar wahân wrth ymyl mynedfa'r gwesty. Dylai bin fod yn hawdd i ymwelwyr ei weld, h.y. dim mwy na 10m i ffwrdd a pheidio byth â gadael iddo orlifo (trwy amserlen wirio / gwagio rheolaidd). Efallai bod ymwelwyr wedi dod yn bell ac eisiau cael gwared ar eitemau fel cwpanau coffi yn rhwydd. Mae nifer o finiau allanol wedi'u rhannu wedi'u harchebu i helpu i annog ymwelwyr i ailgylchu wrth gyrraedd.

Llafur yw'r gost barhaus fwyaf i'r gwesty, ac mae mentrau i leihau'r amser a dreulir gan staff yn rheoli gwastraff yn brif flaenoriaeth, gan gynnwys defnyddio rhaglenni cymhelliant cwsmeriaid.

Y BUSNES O AILGYLCHU CYMRU

THE BUSINESS OF RECYCLING WALES

WRAP CYMRU

# Chwaraewch eich rhan mewn ffordd gylchol o fyw

**I gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar y Gyfraith Ailgylchu yn y Gweithle, anfonwch e-bost atom CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk**

Y Busnes o Ailgylchu Cymru